# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(215)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynigion i ethol aelodau i bwyllgorau**
**NDM5566 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

**NDM5567 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jane Hutt (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Lesley Griffiths (Llafur).

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd - Gohiriwyd**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Dysgu o Adolygiadau Nodiadau Achos Marwoldeb (45 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adolygiad o ddata ar farwolaethau

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Camau gan y Sector Tai i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Cham-drin Domestig (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Adolygiad Polisi ac Arferion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cymru (Saesneg yn unig)

**6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Cynllun Bathodyn Glas - y wybodaeth ddiweddaraf (30 munud)**

**7 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y Chweched Fforwm Cydlyniant (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Chweched Adroddiad Cydlyniant ar Gydlyniant Economaidd, Cymdeithasol a Thiriogaethol (Saesneg yn unig)

**8 Rheoliadau (Gweithdrefnau a Ffioedd) Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 (15 munud)**

**NDM5561 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2014.

**Dogfennau Ategol**

Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol (15 munud)**

**NDM5525 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio, sy'n ymwneud â Phedolwyr a Chytundebau cartref-ysgol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gellir cael copi o'r Bil Dadreoleiddio yma:
Dogfennau'r Bil - Bil Dadreoleiddio [HC] 2013-14 - Senedd y DU

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3)
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 17 Medi 2014